

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 19 Ionawr 2021

**Presennol:** Cyng. Sharon Parry (Cadeirydd)  
Cyng. Celfyn Furlong  
Cyng. Gwilym O. Jones  
Cyng. Einir Thomas  
Cyng. Dyfed Williams

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.

2. **Datganiad o ddiddordeb: - dim**

**Cofnodion cyfarfod 17 Tachwedd 2020 a 14 Rhagfyr 2020**

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Einir Thomas.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

4.1 Cae Chwarae;- Roedd y clerc i ddarganfod pryd roedd Kenton Jones Ltd yn debygol o osod y 'tŷ bach' a'r fainc yn yr ardal chwarae.

Cytunwyd y byddai'r clerc yn gwneud cais am grant ar gyfer gosod siglen fasged gan ddefnyddio'r dyfynbris o £3,830 a dderbyniwyd gan MacVenture Playground Ltd.

4.2 Llochesi Fws;- Cytunwyd y dylid cynnwys asesiad risg ar y ffurflenni cynnal a chadw a gynhyrchwyd gan y clerc.

4.3 Wefan – cytunwyd y byddai datganiad hygyrchedd yn cael ei ymgorffori pan fyddai'r wefan yn cael ei huwchraddio. Yn y cyfamser roedd y clerc yn cadw'r wefan yn gyfredol.

Cytunwyd y byddai'r clerc yn cynhyrchu tudalen Facebook newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned.

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

5. **Penderfyniadau Cynllunio: Dim**

5.1 **VAR/2020/69 Gwaelod Bach, Caergeiliog** – caniatâd.

5.2 **FPL/2020/190 Fron Deg, Caergeiliog** – caniatâd.

6. **Ceisiadau Cynllunio**

Llofnod.....Cadeirydd.....

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

### 6.1 FPL/2020/240 Penrhyn, Ffordd Minffordd Road, Caergeiliog

Cais llawn ar gyfer cadw a chwblhau bloc stablau ynghyd ag ail leoli a defnydd preswyl o'r garafán statig bresennol ar gyfer cyfnod dros dro o 3 blynedd – dim sylwadau

### 7. Materion Ariannol

Cyflwyno a chadarnhau'r adroddiad ariannol am y cyfnod rhwng 1.11.2020 a 31.12.2020 ynghyd â rhagolwg o'r gwariant hyd at Fawrth 2021.

Cyfrif Cyfredol £ 22,717.42, Cyfrif Cadw £3,938.67

### 7.1 Cylch archwilio 3 blynedd - Roedd y clerwr wedi cael gwybod y byddai Llanfair Yn Neubwll yn destun archwiliad llawn yn 2020/21 - byddai hyn yn cynnwys profi trafodion yn fanwl.

### 8. Praesept 2021/22

Cafwyd trafodaeth fanwl am ragolygon o'r cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2021, y gwariant a ragwelir ar gyfer 2021/22 a'r cronfeydd wrth gefn disgwylidig ar 31 Mawrth 2021 a chytunwyd i ofyn am praesept o £17,000 ar gyfer 2021/22.

### 9. Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Rhagfyr a Ionawr	£487.22	Swyddfa Archwilio Cymru	£212.15
--------------------------	---------	-------------------------	---------

Cytunwyd i dalu y rhain

Roedd y clerwr i wneud ymholiadau ynglŷn â bancio ar-lein, sut y byddai hyn yn gweithio, pa fath o 'reolaethau' y gellid eu rhoi mewn lle ac ati.

### 10. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

10.1 Ymgynghoriad Strategaeth Cymdeithas sy'n Heneiddio

10.2 Mapio asedau cymunedol

10.3 Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Rhagfyr 2020

10.4 Lansiad Sŵn y Môr / Sŵn y Môr launch

10.5 Hysbysfwrdd - Yn dilyn trafodaeth ar y prisiau a dderbyniwyd cytunwyd i brynu hysbysfwrdd annibynnol gyda phanel pennawd gan Greenbarnes Ltd – amcan bris o £1,161.33.

### 11. Adroddiadau Cyngorwyr

11.1 Dywedodd Cyng. Sharon Parry fod y gwaith ar lwybr troed 15 trwy Ysgybor bach heb ei wneud.

Llofnod.....Cadeirydd.....

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

11.2 Gofynnwyd i'r clercc wneud ymholiadau gydag CSYM ynghylch mynediad newydd a caravan statig oedd wedi ymddangos wrth Fron Wen ar Ffordd Minffordd.

### 12. Cyfarfod Nesaf 16 Chwefror 2021

Llofnod.....Cadeirydd.....